OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 2498 (Cy.271)

# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

## Rheoliadau Amddiffyn rhag Tybaco (Gwerthiannau o Beiriannau Gwerthu) (Cymru) 2011

| | | |
|---|---|---|
| *Gwnaed* | - - - - | *18 Hydref 2011* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Chwefror 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 3A o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc (Amddiffyn rhag Tybaco) 1991(**1**).

Mae drafft o'r Rheoliadau hyn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo yn unol ag adran 3A(7)(b) o'r Ddeddf honno.

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Amddiffyn rhag Tybaco (Gwerthiannau o Beiriannau Gwerthu) (Cymru) 2011 a deuant i rym ar 1 Chwefror 2012.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Gwahardd gwerthu tybaco o beiriannau gwerthu

**2.**—(1) Gwaherddir gwerthu tybaco(**2**) o beiriant awtomatig.

(2) Bydd y person sydd â rheolaeth ar y fangre y lleolir y peiriant awtomatig ynddi, neu sy'n ymwneud â rheoli'r fangre honno, yn atebol am doriad o baragraff (1)(**3**).

(3) Yn y rheoliad hwn, mae "mangre" ("*premises*") yn cynnwys unrhyw le ac unrhyw gerbyd, llong, hofrenfad, stondin neu adeiledd symudol.

(**1**) 1991 p.23. Mewnosodwyd adran 3A gan Ddeddf Iechyd 2009 (p.21), adran 22. *Gweler* adran 3A(8) am y diffiniad o "the appropriate national authority".
(**2**) Mae i'r term "tybaco" yr un ystyr â "tobacco" yn adran 7 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933 (p.12).
(**3**) Yn unol ag adran 3A(3) o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc (Amddiffyn rhag Tybaco) 1991, bydd y cyfryw berson yn euog o dramgwydd os caiff y gwaharddiad yn rheoliad 2(1) ei dorri. Yn unol ag adran 3A(4) o'r Ddeddf honno, mae person sy'n euog o dramgwydd o dan adran 3A(3) yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy na fydd yn fwy na lefel 4 ar y raddfa safonol.